



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Pigiad Botox cyn llawdriniaeth yn achos llawdriniaeth torgest gymhleth wal yr abdomen

Gwybodaeth i gleifion

Adran Llawfeddygaeth Gyffredinol

Pigiad Botox wal yr abdomen

Mae pigiad Botox wal yr abdomen yn driniaeth feddygol sy'n cynnwys chwistrellu meddyginiaeth a elwir yn 'Botulinum Toxin Math A (Botox)' i gyhyrau wal y bol. Mae Botox yn gweithio drwy flocio dros dro signalau nerf i'r cyhyrau sydd wedi'u chwistrellu, yn peri iddynt ymlacio.

Pam mae angen Botox arnoch chi?

Gall atgyweirio torgest gymhleth ar wal yr abdomen fod yn heriol a pheryglus i'r claf a'r llawfeddyg a gall gynnwys amryw o gymhlethdodau. Ein nod yw cyflawni rhai buddion drwy ddefnyddio Botox cyn y llawdriniaeth torgest.

1. Mae Botox yn ymestyn cyhyrau wal eich bol, yn gostwng y bwch torgest o tua 30 - 50%, gan ei gwneud hi'n rhwyddach atgyweirio eich torgest.
2. Lleihau tensiwn y cyhyrau ar ôl eich llawdriniaeth, yn lleihau'r risg y bydd torgest yn codi eto.
3. Deallir ei fod yn lleihau poen ar ôl llawdriniaeth.

Cyn y Driniaeth

Cyn derbyn pigiad Botox i wal yr abdomen, mae'n bwysig ein hysbysu a oes gennych unrhyw gyflyrau meddygol a grybwyllir isod.

1. Cyflyrau meddygol sy'n arwain at wendid cyhyrau, megis Sglerosis Ymledol, Myasthenia Gravis, Parlys Bell, Sglerosis Ochrol Amyotroffig, Afiechyd Gehrig, Syndrom Lambert-Eaton.
2. Anhwylderau anadlu megis asthma neu emffysema.
3. Os ydych yn cymryd meddyginiaethau megis gwrthfotigau Penicillamine, Aminoglyocide neu atalyddion sianel calsiwm.
4. Anhwylderau gwaedu ac os ydych wedi defnyddio teneuwr gwaed yn ddiweddar (warfarin, Apixiban, ac eraill)
5. Os ydych erioed wedi derbyn mathau eraill o bigiadau Botox megis Dysport neu Myobloc (yn arbennig yn y 4 mis diwethaf); neu os ydych wedi cael sgil-ffeithiau o'r blaen ar ôl derbyn Botox yn y gorffennol.
6. Os ydych yn feichiog neu'n bwydo ar y fron.

Yn ystod y driniaeth

Ar ddiwrnod y driniaeth, gofynnir i chi fynychu'r adran radioleg yn un o'n hysbytai. Cyn y driniaeth, mae disgwyl i chi arwyddo ffurflen gydsynio ar gyfer y driniaeth hon. Mae'r driniaeth hon fel arfer yn cymryd 30 i 60 munud, a gwneir hyn o dan aesthesia lleol. Chwistrellir swm bychan o hydoddiant Botox i wal eich bol gan ddefnyddio nodwydd fain, fel arfer tri phigiad ar y naill ochr. Bydd ein radiolegydd yn defnyddio sgan uwchsain i arwain y nodwydd i mewn i haenau'r cyhyrau. Wedi'r driniaeth, byddwch yn gallu mynd yn ôl adref yn fuan.

Risgiau a Sgil Effeithiau Posibl

Tra bod pigladau Botox i wal yr abdomen yn gyffredinol ddiogel heb unrhyw effeithiau niweidiol hirdymor, mae rhai risgiau posibl a sgil effeithiau i fod yn ymwybodol ohonynt:

1. Adweithiau ar safle'r pigiad: Gall y rhain gynnwys cleisio, cochni, poen, cosi, neu chwyddo ar safle'r pigiad. Mae'r effeithiau hyn fel rheol dros dro.
2. Adweithiau Alergaidd: Mewn achosion prin, fe all rhai unigolion ddatblygu adwaith alergaidd i Botox. Gall arwyddion o adwaith alergaidd gynnwys brech, cosi, trafferth anadlu, neu'r wyneb neu'r gwddw yn chwyddo. Ceisiwch sylw meddygol ar unwaith os ydych yn profi unrhyw rai o'r symptomau hyn.
3. Sgil-effeithiau eraill: Gall sgil-effeithiau prin eraill gynnwys symptomau tebyg i'r ffliw, cur pen, ceg sych, golwg aneglur, neu ludded. Os ydych yn profi unrhyw symptomau anarferol neu barhaus, cysylltwch â'ch meddyg.
4. Fe allech sylwi ar beth anhawster o ran tagu neu wthio tra byddwch chi ar y toiled. Os ydych yn profi hyn, gosodwch eich dwylo'n gadarn ar eich bol i gynorthwyo'r cyhyrau tra'n ceisio tagu/gwthio.

Pryd i geisio Sylw Meddygol

Cysylltwch â'ch darparwr gofal iechyd os ydych yn profi unrhyw rai o'r canlynol ar ôl pigiad Botox i wal yr abdomen:

1. Arwyddion o adwaith alergaidd (e.e., llosg danadl (hives), cosi, trafferth anadlu, chwyddo).
2. Poen ddifrifol neu hirfaith ar safle'r pigiad.
3. Llais cryg, poen yn y frest neu guriadau calon afreolaidd.
4. Gwendid annisgwyl yn y cyhyrau neu barlys mewn ardaloedd heblaw safle'r pigiad arfaethedig.
5. Unrhyw bryderon eraill.

Beth ddylwn i ei ddisgwyl ar ôl y Pigiad Botox?

Dylai Botox ganiatáu i'ch cyhyrau ymestyn o 48 i 72 awr ar ôl triniaeth, yn cyrraedd uchafbwynt o 7 i 14 diwrnod ac yn para hyd at 2 fis. Mae'n ddoeth osgoi yfed alcohol, ymarfer corff egnïol, a theithio yn yr awyr am 48 awr ar ôl eich pigiadau. Yn dilyn eich pigiadau Botox, byddwn yn trefnu eich llawdriniaeth torgest tra bo'r Botox yn dal yn effeithiol yn eich system.

Cysylltu:

Os bydd angen gwybodaeth neu gyngor pellach arnoch chi, cysylltwch ag ysgrifennydd eich llawfeddyg drwy switsfwrdd yr ysbyty ar 01633234112

“This document is available in English /Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg”.